# CREU DÔL O FLODAU GWYLLT

## Bod yn wyllt gyda blodau gwyllt

Mae creu dôl yn beth gwych i'w wneud ar gyfer bywyd gwyllt a phobl. Bydd y rhan fwyaf o'n bywyd gwyllt yn elwa'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan fod dôl yn darparu bwyd a lloches i bryfed ac infertebrata sydd, yn eu tro, yn fwyd i greaduriaid eraill fel adar neu ddraenogod.

Mae'r hydref yn amser da i hau dôl frodorol fythol (mae bythol yn golygu bod y blodau'n dod yn ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn heb orfod eu hail-hau). Mewn gwirionedd, dyma'r amser delfrydol ar gyfer blodau fel y gribell felen, briallu Mair a briallu sydd angen barrug er mwyn egino. Felly, daliwch ati i ddarllen am gyngor ymarferol ar sut i sefydlu dôl.

Byddwch angen ychydig o amynedd oherwydd gall sefydlu blodau gwyllt fod yn dasg araf a pheidiwch â disgwyl gormod o flodau tan yr ail flwyddyn, oni bai eich bod yn defnyddio cymysgedd blynyddol o las yr ŷd. Wedi dweud hynny, mae'r wobr yn werth aros amdani, ac mae dolydd bythol fel arfer yn gwella ac yn gwella gydag amser o gael y rheolaeth gywir.

Mae llwyddiant dôl blodau gwyllt fythol yn dibynnu yn rhannol ar y pridd. Bydd yn sefydlu orau mewn priddoedd salach, isbriddoedd ysgafn, graean, gro mân a phriddoedd calch. Y drafferth i'r rhan fwyaf o arddwyr yw bod angen i ni wneud yn union i'r gwrthwyneb i'r hyn y byddem yn ei wneud fel arfer. Rhaid i ni geisio lleihau ffrwythlondeb y pridd gan fod pridd ffrwythlon, cyfoethog yn annog tyfiant cryf o rywogaethau laswelltau a chwyn a fydd yn cystadlu yn erbyn eich blodau gwyllt, ac yn ennill!

Dyma ddôl o flodau gwyllt sy'n gymysgedd o flodau brodorol bythol a glaswelltau.
Mae'n wahanol iawn yn ecolegol i "Ardaloedd o Gaeau Ŷd", sef cymysgeddau o blanhigion caeau ŷd blynyddol lle mae angen troi'r pridd drosodd ac ail-hau bob blwyddyn i fod yn llwyddiannus.


Dolydd blodau gwyllt lluosflwydd


Ardaloedd caeau ŷd

## Paratoadau

Mae dwy brif senario:

**Hau mewn gwyndwn sy'n bodoli eisoes neu hau mewn pridd noeth:**
Gallwch leihau ffrwythlondeb y pridd dros y blynyddoedd drwy dorri a chael gwared ar y glaswellt / gwair bob blwyddyn. Er mwyn paratoi eich ardal ar gyfer hau, byddem yn argymell eich bod yn torri'r glaswellt yn fyr iawn ac yn digroeni'r tyweirch drwy gribinio'n galed gyda chribin digroeni neu drwy ddefnyddio tractor gyda chelficyn digroeni (og) os yw'n ardal fawr. Mae angen i'r hadau ddod i gysylltiad â'r pridd er mwyn egino.

**Fel dewis arall, os oes gennych chi ardal gymharol fach, gallwch gael gwared ar y tyweirch** a'r uwch-bridd cyfoethog i ddatgelu'r is-bridd. Defnyddiwch y tyweirch i wneud nodwedd yn rhywle arall yn yr ardd neu gadewch iddo ddadelfennu i wneud pridd / compost lôm perffaith. Mae blodau blynyddol y caeau ŷd yn wahanol ac yn hapus i dyfu mewn priddoedd cyfoethocach; roedden nhw'n arfer bod yn 'chwyn' cyffredin yn tyfu mewn caeau âr ac ochr yn ochr â nhw.

Mae'n hanfodol cael gwared ar chwyn fel tafol, ysgall a danadl poethion cyn dechrau hau. Mae amser yn clirio'r chwyn yn amser gwerthfawr iawn. Mae hefyd yn bwysig dal ati i chwynnu eich dôl gyda llaw wrth iddi sefydlu, er mwyn troi'r fantol o blaid y cymysgedd o hadau o'ch dewis.

## Gwirio beth sydd yno eisoes

Cyn i chi ddechrau, mae'n werth gweld beth sydd gennych chi eisoes. Gadewch i'r glaswellt dyfu'n dal a gweld beth fydd yn dod i'r golwg. Efallai bod rhai blodau gwyllt yno'n barod nad ydych chi wedi'u gweld gan eu bod wedi cael eu torri erioed.

Os ydych chi eisiau ychwanegu mwy, fe allwch chi wneud hyn drwy or-hau (fel arfer gyda chymysgedd o hadau blodau gwyllt 100% h.y. dim glaswelltau) mewn tir sydd wedi'i gribinio / digroeni'n drwm lle mae gennych chi ganran uchel o bridd noeth. Dewis / ychwanegiad arall defnyddiol at y dull yma o weithredu yw plannu 'eginblanhigion' brodorol rydych chi wedi'u hau o hadau neu rydych chi wedi'u prynu gan gyflenwr. Os byddwch yn prynu eginblanhigion, gwnewch yn siŵr eu bod wedi cael eu tyfu mewn compost heb fawn.

Os nad oes unrhyw flodau gwyllt, efallai y byddwch chi eisiau hau hadau rydych chi wedi'u cael yn lleol yn ddelfrydol, naill ai drwy eu casglu eich hun (gyda chaniatâd) neu eu cael gan gyflenwr ag enw da. Gwnewch yn siŵr eu bod yn frodorol ac wedi'u tyfu yn y DU. Mae cymysgeddau dolydd traddodiadol yn 70 i 80% o laswelltau gwyllt a 20 i 30% o flodau gwyllt. Cofiwch… mae glaswelltau mân mewn dolydd yn bwysig i fywyd gwyllt hefyd!

## Dechrau o'r dechrau

Ewch ati i gael gwared ar y tyweirch a'r pridd ffrwythlon (dyfnder o 5 i 10cm fel arfer). Mae rhywogaethau'r ddôl yn ffynnu mewn priddoedd cymharol wael, isbriddoedd ysgafn, graean, gro mân a phriddoedd calch.

Ewch ati i ddadwreiddio chwyn bythol fel ysgall, danadl poethion, taglys a thafol yn ofalus. Mae'n bwysig datrys y broblem chwyn cyn hau.

Os yw'n safle llawn chwyn, efallai y bydd angen i chi dreulio tymor yn clirio'r ddaear o'r holl chwyn cyn hau. Cribiniwch y pridd i drwch mân i greu gwely hadau addas. Gwnewch yn siŵr ei fod yn gadarn drwy ei rolio neu gerdded drosto.

## Hau eich dôl

Mae'n syniad da cymysgu'ch hadau gyda thywod lliw golau (wedi'i sychu mewn odyn) i'w gwneud yn haws gweld ble rydych chi wedi bod a chael dosbarthiad gwastad. Ewch ati i hau drwy gerdded i fyny ac i lawr yn systematig gan wasgaru hadau wrth fynd yn eich blaen.

Cerddwch dros y darn o dir neu ei rolio i sicrhau bod yr hadau mewn cysylltiad da â'r pridd. Peidiwch â'u gorchuddio â phridd. Mae'r rhan fwyaf o hadau blodau gwyllt yn egino'n well pan fyddant yn agored i olau.

### Pryd caf hau fy nôl?

Mae posib hau dolydd yn y gwanwyn (Mawrth - Ebrill) neu'r hydref (Medi - Tachwedd), yn dibynnu ar yr amodau.

Mae hau yn yr hydref yn well ar gyfer rhai rhywogaethau sydd angen barrug i egino (y gribell felen, briallu Mair, briallu). Cyngor doeth: beth am hau yn yr hydref ac eto yn y gwanwyn. Gallech chi hefyd hau rhywfaint o hadau yn yr hydref fel eginblanhigion i'w hychwanegu at y ddôl yn y gwanwyn.

Cofiwch farcio'r ardal rydych chi wedi'i hau gan fod angen ei diogelu rhag pobl, adar a chathod a chŵn.

### Hadau ar gyfer eich dôl

Ceisiwch gael cymaint â phosibl o hadau o ddolydd lleol (mae rhai cyflenwyr bach o gwmpas).

Gallwch gasglu hadau gwyllt lleol os oes gennych ganiatâd gan y perchennog tir.

Ystyriwch ddefnyddio "gwair gwyrdd" gan gynhyrchydd cyfagos. Cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Natur, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, cyflenwyr Blodau Gwyllt neu gofnodwr BSBI lleol am fwy o wybodaeth am argaeledd hadau lleol.

Mae gwahanol gymysgeddau o hadau ar gyfer gwahanol fathau o bridd ac mae'n syniad da profi pH eich pridd i ddarganfod beth ydyw.

Mae angen i chi wybod hefyd a yw'n bridd tywodlyd, lôm, clai neu sialc pan fyddwch yn dewis eich hadau. Os yw eich safle mewn cysgod rhannol neu lawn, bydd arnoch angen cymysgedd gwahanol o hadau ar gyfer hyn. Mae cymysgeddau o hadau sy'n cynnwys cymysgedd eang o rywogaethau, sy'n addas ar gyfer amodau pridd amrywiol.


© NEIL ALDRIEDGE




**Blodau ar gyfer eich dôl**
Ar gyfer dolydd blodau gwyllt bythol: cribau San Ffraid, pys-y-ceirw, suran y cŵn, briallu Mair, clafrllys y maes, y bengaled (cyffredin neu ddu), briwydd felen, blodyn menyn, pig-yr-aran y weirglodd, hocysen fwsg, llygad-llo mawr, briallu, blodyn neidr, meillion coch, llyriad yr ais, y feddyges las, ytbys, moron y maes, milddail, cribell felen.

Peidiwch â disgwyl gweld blodau yn ystod y flwyddyn gyntaf – mae angen i'r rhan fwyaf o blanhigion bythol dyfu am o leiaf dwy flynedd cyn iddynt fod yn ddigon aeddfed i flodeuo.

Ar gyfer ardaloedd caeau ŷd blynyddol:
Bulwg yr ŷd, glas yr ŷd, melyn yr ŷd, camri'r ŷd, pabi'r ŷd.

## Rheoli dolydd

**Dolydd bythol:**
Ar gyfer dolydd sy'n blodeuo yn y gwanwyn gyda briallu Mair, ffedog y forwyn, brithegion ac ati, gadewch iddyn nhw dyfu a blodeuo rhwng mis Mawrth a diwedd mis Gorffennaf.

Torrwch ym mis Gorffennaf a chael gwared ar y glaswellt bob amser. Torrwch yn achlysurol tan fis Hydref neu ddim ond un toriad terfynol ym mis Hydref.

Ar gyfer y mwyafrif o ddolydd sy'n blodeuo yn yr haf gyda'r bengaled, clafrllys y maes, blodau menyn ac ati, torrwch yn achlysurol yn gynnar yn y gwanwyn tan fis Ebrill ac wedyn eu gadael i flodeuo a hadu.

Torri ar ddiwedd mis Awst / dechrau Medi a symud y glaswellt wedi'i dorri. Toriad terfynol ym mis Hydref, ddim yn rhy fyr. Gadewch sofl o 6".

**Cyngor doeth**
• Os gallwch chi, gadewch eich glaswellt wedi'i dorri yn gorwedd am wythnos fel bod unrhyw hadau yn cael cyfle i ollwng cyn symud y glaswellt.

• Byddwch yn greadigol gyda'ch rheolaeth, mae dôl gyda gwahanol strwythurau oedran yn darparu cynefin ar gyfer amrywiaeth ehangach o rywogaethau. Gadewch rai ardaloedd heb eu torri dros y gaeaf gan eu bod yn wych ar gyfer mamaliaid a thrychfilod sy'n gaeafgysgu ac yn darparu hadau i adar hefyd.

• Ar ôl ychydig flynyddoedd, bydd eich glaswellt yn llai egnïol a gobeithio mai dim ond unwaith y flwyddyn y bydd angen i chi dorri'ch dôl ar ddiwedd yr haf.

**Ardaloedd caeau ŷd blynyddol**
Gadewch tan yr hydref. Dylech gael gwared ar unrhyw chwyn bythol fel danadl poethion, ysgall a thafol.

Tynnwch yr holl goesynnau blodau marw allan. Cribiniwch y pridd a chreu gwely hadau addas.

Ysgwydwch hadau ar y pridd noeth. Peidiwch â'u gorchuddio â phridd; cerddwch ar y pridd i wthio'r hadau i mewn.

Bydd angen i chi ailadrodd y broses uchod bob blwyddyn os ydych chi eisiau cael rheolaeth ar y rhywogaethau caeau ŷd.

**Pori**
Os oes gennych chi ddôl fawr, ystyriwch bori ar ôl torri gyda defaid, geifr, merlod neu wartheg. Os cânt eu rheoli'n briodol, gall anifeiliaid pori greu dolydd o ansawdd gwell, yn enwedig ar briddoedd cyfoethocach.

Ar ôl torri, sicrhewch bori ysgafn tan ddechrau'r gaeaf; dilynwch hyn gyda phori ysgafn yn y gwanwyn, ym mis Mawrth tan ganol mis Ebrill.

O ganol mis Ebrill tan fis Awst, gadewch yr ardal heb ei phori.

Ffaith ddiddorol: Mae tail anifeiliaid yn dda ar gyfer chwilod ac infertebrata eraill

Ysgrifennwyd gan: **Anna Williams, Swyddog Cymunedol ac Addysg, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**

I gael rhagor o gyngor, awgrymiadau da a syniadau i helpu i ddod â bywyd gwyllt yn ôl i'ch gardd, ewch i'n gwefan ni yn northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/wildlife-gardening

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust